CB CYMDEITHAS ERYRI

Cynhaliwyd ddydd Sadwrn 27 Hydref 2018 yng Nghoed y Brenin, ger Dolgellau

1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth: Warren Martin, Angela Roberts, Max Grant, Peter Weston, Jacob Buis, Kate Gibbs. *A 13 o aelodau eraill.*

2. Materion yn codi

i) Cymeradwywyd cofnodion CBC 2017 (cynigiwyd gan David Firth ac eiliwyd gan Netti Collister)
ii) Nid oedd materion yn codi.

3. Adroddiad y Cadeirydd - David Archer

i) Cyflwyniad: diolchodd David Archer i'r aelodau am fynychu'r CBC ac am eu cefnogaeth a'u rhan yng ngwaith y Gymdeithas.
ii) Adroddodd DA bod y Gweinidog Amgylchedd newydd, Hannah Blythyn, wedi gwrando ar farn y Gymdeithas, cyrff amgylcheddol ac unigolion. Mae wedi cyhoeddi ei hadroddiad **Gwerthfawrogir a Gwydn** sy'n amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru dros Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol. Mae'n cadarnhau y bydd pob tirlun dynodedig presennol yn cael ei warchod. Mae'r Gweinidog wedi gwrthdroi'n rhannol y toriadau arfaethedig i gyllidebau Parciau Cenedlaethol.
iii) Adroddodd DA bod Cymdeithas Eryri yn ymateb i'r papur ymgynghori *Brexit a'n Tir,* fel y maent eisoes wedi ei wneud i ymgynghoriadau cenedlaethol eraill yn cynnwys Polisi Cynllunio Cymru drafft ac ymgynghoriad Ofgem sy'n gysylltiedig â rhaglen y Grid Cenedlaethol i osod ceblau o dan y ddaear. Mae hyn hefyd yn cynnwys cynigion i dynnu'r llinellau foltedd uchel a pheilonau dros aber Dwyryd. Mae CE hefyd wedi ymateb i sawl ymgynghoriad lleol.
iv) Adroddodd DA 12 mis llwyddiannus i'r rhaglen gadwraeth a hyfforddiant i wirfoddolwyr. Ac eleni mae'r rhaglen wedi ei chydnabod yn genedlaethol wrth ennill Cymeradwyaeth Arbennig yng Ngwobrwyon Gwarchod Parciau 2018, a drefnir gan yr Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol. Mae hyn i gyd wedi digwydd diolch i waith dygn a medrau staff y Project, Mary Kate, Owain Thomas a Dan Goodwin.
v) Llwyddiant mewn digwyddiadau: Hyd yma, mae'r Gymdeithas wedi trefnu neu wedi mynychu 31 digwyddiad yn cynnwys teithiau, sgyrsiau a gweithdai eleni. Mae bron pob un wedi denu cynulleidfa dda ac rydym wedi mwy nag ateb y targed a osodwyd ar gyfer Claire Holmes, y Swyddog Ymwneud, i recriwtio un aelod newydd ym mhob digwyddiad ar gyfartaledd – 36 aelod newydd hyd yma eleni. Rhoddwyd diolch i Claire.
vi) Caewyd apêl y pen-blwydd yn 50 ym mis Chwefror ar ôl codi'r swm rhyfeddol o £50,627. Daeth dros hanner hyn o gyfraniadau aelodau a chefnogwyr, gyda'r gweddill gan fusnesau lleol a digwyddiadau. Diolchwyd i bawb a gyfrannodd.
vii) Aelodaeth: Mae tudalennau aelodaeth y wefan wedi eu gweddnewid i sicrhau bod ymaelodi ac adnewyddu aelodaeth yn haws i bawb. Mae aelodaeth wedi cynyddu o 3% dros y flwyddyn. Mae ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol yn brysur ac yn cyrraedd cynulleidfa

cynyddol. Mae aelodaeth busnes wedi cynyddu'n sylweddol; bellach mae 36 busnes sy'n gweithredu yn Eryri yn cefnogi ein gwaith.
viii) Mae'r ochr ariannol yn iach o ganlyniad i godi arian effeithiol a chofroddion hael. Rydym wedi trosglwyddo ein rheolaeth buddsoddiadau i Rathbones, cwmni gyda phrofiad yn y sector elusennol, ac wedi sefydlu is-bwyllgor i gadw golwg ar faterion ariannol.
ix) Yn ystod y flwyddyn, mae ymddiriedolwyr y Gymdeithas wedi cychwyn ar hyfforddiant mewn rheolaeth a buddsoddiad ariannol. Un canlyniad o hyn yw bod staff ac ymddiriedolwyr wedi arolygu **gwerthoedd crai** y Gymdeithas. Cytunwyd ar bedwar o werthoedd craidd i'r holl ymddiriedolwyr a staff eu gweithredu. Y rhain yw:

Bod yn **AGORED** – yn agored ac onest ynglŷn â'r penderfyniadau a'r gweithrediadau a wneir gennym ac yn atebol i aelodau'r Gymdeithas.
Bod yn **WYBODUS –** sicrhau'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion sy'n effeithio ar Eryri ac archwilio cyfleoedd newydd i wireddu ein cenadwri.
Bod yn **BARCHUS –** parchu barn pawb a gwireddu ein cenadwri mewn ffordd sy'n annog trafodaeth a chydweithrediad.
Bod yn **EOFN** – bod yn eofn a sefyll dros Eryri.

x) Staff:
Penodwyd Debbie Pritchard yn Swyddog Aelodaeth a Chyfathrebu,
mae Dan Goodwin wedi ymuno â ni fel Swyddog Project Cadwraeth,
newidiodd rôl Claire Holmes i Swyddog Ymwneud â'r Gymuned, gan ddatblygu digwyddiadau a recriwtio aelodau newydd. Ffarweliwyd â Frances Smith, rhywun sydd wedi bod yn aelod o staff ers tro byd, a dymunwn pob dim da iddi ar gyfer y dyfodol.

xi) Ymddiriedolwyr:
Mae Paul Gannon, Sarah McCarthy a Gareth Roberts i gyd wedi ymddeol a diolchwyd iddyn nhw am eu gwasanaeth gwerthfawr dros sawl blwyddyn.
Mae'r Gymdeithas wedi bod yn ffodus ac wedi denu dau ymddiriedolwr newydd, sy'n dod â medrau a phrofiad gwerthfawr. Julian Pitt a Jane Parry-Evans.
Mae Margaret Thomas, un o'n ymddiriedolwyr sydd wedi gwasanaethu hiraf, yn sefyll i lawr fel Is-gadeirydd ond bydd yn parhau fel ymddiriedolwr.
Mae Charles Hawkins bellach yn sefyll fel ei olynydd fel Is-gadeirydd.
Mae John Lloyd Jones, Llywydd, yn llywyddu CBC y Gymdeithas am y tro olaf. Mae John wedi ei benodi'n Gadeirydd y Comisiwn Isadeiledd Cenedlaethol i Gymru. Llongyfarchiadau i John ar ei benodiad newydd, a gwerthfawrogiad o'i gyfnod fel Llywydd. Mae'r Ymddiriedolwyr felly yn chwilio am Llywydd newydd.

4. Adroddiad Project Ecosystem Eryri - Mary-Kate Jones
Rhoddodd Mary-Kate Jones grynodeb o waith y Project yn ystod y flwyddyn:

i) Pwyntiau'n codi:

Ers mis Ionawr 2018, cynhaliwyd dros 100 o ddyddiau gwaith ac mae hyn yn cyfateb i 650 o ddyddiau gwirfoddolwyr. Mae gwirfoddolwyr y Gymdeithas wedi gweithio dros 3800 awr. Rhoddodd MKJ ddiolch arbennig i Owain a Dan am eu holl waith yn cydlynu'r amrywiol ddigwyddiadau. Rhoddwyd diolch hefyd i'r llu o wirfoddolwyr a fu'n cymryd rhan yn y digwyddiadau.
ii) Digwyddiadau allweddol:
Rhoddodd MKJ olwg drwyddo draw o ddigwyddiadau allweddol megis y penwythnos Gwneud Gwahaniaeth llwyddiannus, a gynhaliwyd dros dridiau ac a oedd yn cynnwys 11 o orchwylion i wirfoddolwyr a 500 o oriau gwirfoddolwyr, a'r Wythnos Wirfoddolwyr; roedd y ddau ddigwyddiad yn cynnwys hefyd gwaith tirlun, rheoli cynefinoedd a chasglu sbwriel.

5. Adroddiad y Cyfarwyddwr - John Harold

i) Ehangodd JH ar adroddiad y Cadeirydd ar ddatganiad y Gweinidog Amgylchedd ar Barciau Cenedlaethol ac AHNE o'r enw 'Gwerthfawrogir a Gwydn':
Mae Cymdeithas Eryri wedi chwarae ei rhan mewn sicrhau'r ail-feddwl a awgrymir gan ddatganiad y Gweinidog. Mae'r Gymdeithas wedi gweithio'n ddygn i amlygu'r materion.

Chwaraeodd y Gymdeithas ran arwyddocaol gydag ymgyrchu yn erbyn toriadau yng nghyllideb Awdurdod y Parc Cenedlaethol y gwanwyn hwn ac erbyn dechrau'r haf cyhoeddodd y Gweinidog y penderfyniad i rannol ail-feddwl ynglŷn â thoriadau a gynlluniwyd.

Symudiad positif arall yw'r penderfyniad i roi mwy o sylw i benderfyniadau cyllideb yn y dyfodol – hanfodol i allu'r Parc i gynllunio'n briodol ar gyfer y dyfodol. Hanfodol hefyd i osgoi'r drychineb o weld staff yn colli eu gwaith yn seiliedig ar doriadau cyllidebol a gaiff eu gwrthdroi yn ddiweddarach.

ii) Mae'r Gymdeithas wedi camu ymlaen ac wedi ysgwyddo ein rhan o safbwynt cyfrifoldeb am symud ymlaen gyda dulliau cydweithredol o weithio, wrth roi cryn amser ac ymdrech i ddatblygu a gwireddu;

- **Cynllun Partneriaeth Eryri** – peilotio'r dull o weithredu
- **Cynllun Eryri** – cynllun partneriaeth ar gyfer Eryri - cynllun rheolaeth newydd
- project **Partneriaeth Tirlun y Carneddau** sydd, os yn llwyddiannus o ran ariannu, yn mynd i sicrhau sawl project dros gyfnod o 5 mlynedd.

Mae'r Gymdeithas hefyd wedi rhoi cryn ymdrech i adolygiad y **Cynllun Datblygu Lleol** ar gyfer Eryri ac wedi cymryd rhan ym mhob cam: Ymgynghoriad Cychwynnol, Drafft Rhagarweiniol, Newidiadau wedi eu Canolbwyntio, Archwiliad Cyhoeddus, Newidiadau mewn Materion yn Codi (disgwylir adroddiad yr Archwilydd a phenderfyniad y Gweinidogion erbyn diwedd y flwyddyn). Ar bob cam rydym wedi ucheloleuo unrhyw wrthdaro potensial gyda phwrpasau statudol a gwarchodaeth y Parc Cenedlaethol.

Mae'r Gymdeithas wedi parhau i ymateb i ymgynghoriadau ar gynllunio, polisi a deddfwriaeth lle bo hynny'n berthnasol i fuddion y Parc Cenedlaethol. Yn dilyn proses hir, yn ddiweddar cymeradwywyd y cais am ffordd osgoi i Lanbedr gan y Pwyllgor Cynllunio. Gwnaed hyn heb i'r holl faterion hanfodol gael eu cyflwyno iddyn nhw gan eu swyddog cynllunio. Rydym wedi gofyn i ddiffygion yn y broses gael eu hadolygu a, phe bai angen, eu cywiro cyn cyflwyno'r nodyn cynllunio – arhoswn am ymateb gan yr Awdurdod.

iii) Cadarnhaodd JH eiriau o ddiolch a gwerthfawrogiad David i'n staff, sef Owain, Dan a Mary-Kate, Debbie, Claire a Judith.
Diolch hefyd i'r Ymddiriedolwyr – pobl ymrwymedig gydag ystod eang o brofiad, medrau a gwybodaeth.

iv) Gwahoddwyd aelodau i gwblhau holiadur i adael i'r Gymdeithas wybod eu barn, ac fe'u gwahoddwyd i gysylltu gyda JH neu un o'r ymddiriedolwyr.

6. Adroddiad Ariannol - Judith Bellis

Dosbarthwyd y crynodeb Ariannol gyda chylchlythyr yr hydref a gellir gweld yr adroddiad llawn ar y wefan.

i) Cychwynnodd JB drwy egluro canlyniadau blwyddyn ariannol 2017-18. Cafwyd colled o ran gweithredu am y tro cyntaf ers 2013 ond roedd hyn wedi ei gynllunio o ganlyniad i arian cadarn wrth gefn. Gwnaed ymrwymiad o £25k tuag at ddigwyddiadau a gweithgareddau i nodi'n briodol a dathlu'r pen-blwydd yn 50, ac i'w ddefnyddio fel dull o godi proffil y Gymdeithas a'r gwaith a gyflawnir ganddi. Bellach mae'r Gymdeithas yn ymrwymo £10,000 y flwyddyn o'i hadnoddau ei hun i raglen waith ymarferol y Gymdeithas i gyfrannu at yr ariannu drwy grantiau.
ii) Eglurodd JB bod cofrodd hael o dros £140,000 wedi ei dderbyn ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol 2017-18 ym mis Mehefin; o ganlyniad bydd hyn yn golygu arian dros ben yn 2018/19.
iii) Diolchodd JB i'r holl aelodau am eu cefnogaeth ariannol, eu tanysgrifiadau a'u hamser.

7. Cwestiynau i swyddogion a staff

- Fran Holmes: Gofynnodd am eglurhad o'r graff ariannol a ddangoswyd yn ystod cyflwyniad JB.
  Ateb: Mae'r llinell las yn cynrychioli incwm nad yw'n amrywio fawr o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r llinell goch yn cynrychioli gwariant sy'n tueddu i fod ychydig dros ein hincwm craidd ac unwaith eto nid yw'n amrywio fawr. Ceir y gwahaniaeth mawr pan fo'r Gymdeithas yn derbyn cofrodd, a gynrychiolir gan y llinell werdd.
- Peter Southgate: Gofynnodd pa gyfnod o amser a gynrychiolir gan y graff.

Ateb: Dydy o ddim yn cynrychioli unrhyw gyfnod o amser. Mae'n dangos tueddiadau. Mae incwm o gofroddion yn amrywio ac efallai y cawn ychydig mewn blwyddyn ac yna dim byd am sawl blwyddyn. Ni allwn gyllido ar gyfer cofroddion.

- Gareth Thomas: Mynegodd bryder ynglŷn ag oedran aelodau sydd dros 50 ar gyfartaledd, hefyd nad oedd pobl ifanc i'w gweld yn ymaelodi.
  Ateb: Dyma pam yr ydym wedi bod yn hybu'r ymgyrch aelodaeth i geisio targedu aelodau newydd, yn enwedig aelodau iau.
- Jos Marien: Mae'r costau yn erbyn Tŷ Hyll ar gyfer 2017 yn wahanol iawn i 2018 ac mae o'n methu â deall hyn.
  Ateb: Cafwyd gwaith trwsio arwyddocaol a sylweddol yn 2017 ac o ganlyniad roedd hyn wedi golygu costau ychwanegol i'r Gymdeithas.
- Karen Jones: Oes gennym noddwr adnabyddus o'r Gymdeithas?
  Ateb: Does gennym ddim noddwr, ond mae gennym lywydd ac rydym ar hyn o bryd yn chwilio am lywydd newydd yn dilyn ymddeoliad John Lloyd Jones. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau cysylltwch os gwelwch yn dda gyda David Archer.

Cyfeiriwyd cwestiynau ychwanegol i'r sesiwn holi ymddiriedolwyr a fyddai'n digwydd ymhellach ymlaen yn y bore.

8 (i). Rhoddwyd cynnig ger bron i fabwysiadu'r adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn ffurfiol ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben 30 Mehefin 2018 gan Glynis Archer, eiliwyd gan David Firth ac fe'i pasiwyd *nem con.*

8(ii). Rhoddwyd cynnig ger bron i ail-benodi Bennet Brooks fel archwilwyr annibynnol o gyfrifon y Gymdeithas ar gyfer 2018/19 gan Charles Hawkins, eiliwyd gan Netti Collister a'i basio *nem con*.

9. Rhoddwyd cynnig ger bron gan y Pwyllgor Gwaith i roi ar un ochr am 12 mis cymal 14 (4) y cyfansoddiad (sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyfyngu'r cyfnod hwyaf i'w weithredu fel Cadeirydd i chwe mlynedd) er mwyn galluogi'r Cadeirydd presennol i sefyll am un flwyddyn arall yn unig.

Cynigiwyd gan Helen Hawkins, eiliwyd gan Siân Roberts a'i basio *nem con.*

10. Ethol Swyddogion ac Ymddiriedolwyr y Pwyllgor Gwaith

Llywydd
Gwag

Is-lywyddion
Huw Morgan Daniel, David Firth, Syr John Houghton, Syr Simon Jenkins, Dr Morag McGrath

Cadeirydd: *David Archer* ac **Is-gadeirydd**: Charles Hawkins

Ymddiriedolwyr
Robert Lowe, Jane Parry-Evans, Julian Pitt, Peter Weston
Cynigiwyd gan Siân Roberts, eiliwyd gan Helen Hawkins a'i basio *nem con*.

11. Unrhyw fusnes arall

i) Soniodd Charles Hawkins, ymddiriedolwr, am gapiau newydd Cymdeithas Eryri :
Mae dros 8 miliwn tunnell fetrig o blastig yn cyrraedd y môr bob blwyddyn ac mae gwirfoddolwyr y Gymdeithas yn casglu llwythi enfawr bob blwyddyn. Roedd CH wedi sylweddoli cyn lleied o bobl oedd wedi clywed am y Gymdeithas a'r gwaith gwych a wneir ganddi. A oedd ffordd o fynd i'r afael â'r ddau fater amserol yma? Felly, dechreuwyd ar y gwaith o chwilio am yr eco gap. Cafodd CF hyd i ffynhonnell yn y DU a all ddarparu capiau a wneir o boteli plastig wedi eu hailgylchu gyda safon archwilio ethegol ac amgylcheddol ardderchog ac sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol. Mae pob un o'r eco gapiau gyda logo'r Gymdeithas wedi eu creu o bum potel plastig wedi eu hailgylchu ac maen nhw bellach ar werth.

ii) Cynigiodd David Firth ddiolch ar ran yr aelodau i David Archer am gytuno i sefyll fel Cadeirydd am flwyddyn arall ac i John Lloyd Jones am ei wasanaeth fel Llywydd.

12. Dyddiad CBC y flwyddyn nesaf:
19 Hydref 2019 (dyddiad dros dro)